# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** | **Sarah Beasley** |
| Dyddiad: Dydd Mercher, 4 Tachwedd 2015 | Committee Clerk |
| | 0300 200 6565 |
| Amser: 09.00 | SeneddCCLLL@Cynulliad.Cymru |

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

## - Pecyn Atodol

### 2 Ymchwiliad i'r Adolygiad o Siarter y BBC: sesiwn dystiolaeth 1 - S4C

(09.00 - 10.00) (Tudalennau 1 - 26)

- Huw Jones, Cadeirydd, S4C
- Ian Jones, Prif Weithredwr, S4C

**Dogfennau atodol:**

Briff y Gwasanaeth Ymchwil

CELG (4)-27-15 Papur 1 Pecyn Atodol

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

BCR 11
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Communities, Equality and Local Government Committee
Ymchwiliad i'r Adolygiad o Siarter y BBC
Inquiry into the BBC Charter Review
Ymateb gan: S4C
Response from: S4C

30.10.2015

Christine Chapman AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

---

**Tystiolaeth S4C:**
**Ymchwiliad Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Adolygiad Siartr y BBC**

---

Annwyl Gadeirydd

Cyflwynwn isod ymateb S4C i ymchwiliad eich Pwyllgor yn ymwneud â phroses adolygu Siartr y BBC. Mae nifer o ymchwiliadau seneddol eraill yn San Steffan yn ymwneud ag adnewyddu Siartr y BBC a setliad ffi'r drwydded yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, ac rydym wedi cyflwyno tystiolaeth debyg i David T. C. Davies AS, Jesse Norman AS a'r Arglwydd Best. Mae S4C hefyd wedi darparu ymateb i ymgynghoriad Papur Gwyrdd y DCMS. Byddwn yn darparu copïau o'r dogfennau hyn i chi er gwybodaeth.

Rydym yn falch o'r cyfle i roi tystiolaeth lafar i'ch Pwyllgor parthed dyfodol S4C a darlledu yng Nghymru.

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod o newid sylweddol i S4C - o ran ail-sefydlu'r corff fel sefydliad cenedlaethol sy'n ymgysylltu'n adeiladol â bywyd cyhoeddus yng Nghymru, sy'n deall a chyfrannu mewn ffordd adeiladol i gyflawni ei rôl ddiwylliannol a chymdeithasol bwysig, sy'n adnabod effaith economaidd sylweddol buddsoddiad S4C yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru, sy'n gosod y gynulleidfa yng nghanol ein holl weithgareddau ac sy'n darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gynulleidfa mor eang â phosibl – yng Nghymru a ledled y DU.

Roedd 2014-15 yn flwyddyn o dwf cyffredinol i S4C - yn benodol o ran defnydd ar-lein - gyda chynnydd o 31% flwyddyn-ar-flwyddyn. Gwelwyd cynnydd hefyd o ran gwylio S4C ar y teledu ar draws y DU, gyda 605,000 yn gwylio bob wythnos ar gyfartaledd. Fodd bynnag, mae heriau hefyd yn bodoli, gan gynnwys materion ariannol, technolegol ac ieithyddol, yn ogystal â deall yn well disgwyliadau'r gynulleidfa ac ymateb i'r gostyngiad bach sydd wedi bod blwyddyn-ar-flwyddyn o ran gwylio yng Nghymru.

Gobeithiwn y bydd S4C yn wynebu'r cyfnod nesaf yn ei datblygiad mewn cyflwr da i ymdrin â'r heriau sydd o'n blaenau.

Ar gyfer yr ymateb hwn, rydym yn rhagdybio y bydd proses neu adolygiad cymesur a thryloyw yn cael ei gynnal gan yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn ei gynorthwyo i ddod i gasgliad parthed gofynion 'ariannu digonol' S4C ar gyfer y cyfnod ariannu nesaf yn unol â 'i ddyletswydd statudol a hefyd y bydd y trefniadau presennol rhwng Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC yn parhau neu'n cael eu trosglwyddo i unrhyw gorff fydd yn ei olynu, yn amodol ar annibyniaeth y corff hwnnw o Weithrediaeth y BBC (ac yn amodol ar argymhellion a gaiff eu cyflwyno yn y Papur Gwyn).

Rydym yn canolbwyntio yn yr ymateb hwn ar faterion sy'n ymwneud ag S4C. Nid ydym yn cynnig barn ynglŷn â materion ehangach sy'n ymwneud ag adnewyddu Siartr y BBC.

Wythnos nesaf byddwn yn cyhoeddi gweledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau S4C. Yn y ddogfen hon byddwn yn nodi opsiynau ar gyfer strategaeth S4C yn y dyfodol ynghyd â gwybodaeth yn ymwneud â dyfodol ac ariannu S4C. Byddwn yn darparu copïau o'r ddogfen i'ch Pwyllgor a mawr obeithiwn y byddwch yn gallu ymuno â ni ar gyfer cyhoeddi'r ddogfen.

Os ydych angen rhagor o wybodaeth am S4C byddem yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau gennych. Ceir gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau S4C yn Adroddiad Blynyddol S4C ar gyfer 2014/15. Mae gwybodaeth sy'n ymwneud ag atebolrwydd a'r trefniadau ariannu rhwng Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC i'w gael yn y Cytundeb Gweithredu rhwng yr Awdurdod a'r Ymddiriedolaeth.



Parc Tŷ Glas Llanisien Llanishen Caerdydd Cardiff Cymru Wales CF14 5DU
Ffôn Phone +44(0)29 2074 7444 Ebost Email s4c@s4c.cymru Gwefan Website s4c.cymru
Awdurdod S4C The Welsh Fourth Channel Authority

**Y ddarpariaeth o ran gwasanaethau'r BBC yng Nghymru yn y dyfodol, a hynny yn y Gymraeg a'r Saesneg**

Ni ellir tanbrisio pwysigrwydd adlewyrchu diwylliant Cymru trwy gyfrwng darlledu yn y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru. Mae buddsoddiad cyffredinol mewn darlledu gwasanaeth cyhoeddus (BBC a masnachol) o ran rhaglenni ar gyfer ac o'r Cenhedloedd a'r Rhanbarthau wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cred S4C fod hyn yn achos pryder a gobeithiwn y rhoddir ystyriaeth i anghenion cynulleidfaoedd yng nghenhedloedd a rhanbarthau'r DU wrth lunio Siartr Frenhinol y BBC ar gyfer y ddeng mlynedd nesaf.

Mae gan Gymru angen llwyfannau creadigol lleol cryf ar gyfer ei diwylliant drwy gyfrwng y Saesneg ac mae angen i Gymru, ei doniau, ei hanes a'i bywyd bob dydd gael ei weld yn fwy amlwg ar sianeli cyhoeddus rhwydweithiau'r DU. Rhaid i'r materion hyn gael ystyriaeth lawn yn ystod y trafodaethau parthed disgwyliadau ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar draws y DU.

Mae'r cwestiynau hyn fodd bynnag yn annibynnol i'r rheini sy'n ymwneud ag anghenion darlledu yn yr iaith Gymraeg. Dim ond un sianel Gymraeg sydd, o gymharu gyda channoedd yn Saesneg, a rhaid i'r un sianel Gymraeg geisio cynnig darpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg sy'n cyfateb i'r ystod gyflawn o ddarpariaeth teledu Saesneg rhyngwladol sydd ar gael.

Mae'n briodol felly i ystyried ei anghenion ariannu ar wahân, fel sydd wedi digwydd ers 1982, ac ar wahân i ystyried darpariaeth y BBC ar gyfer y cenhedloedd yn gyffredinol.

S4C yw'r unig sianel deledu sy'n adlewyrchu ystod gynhwysfawr o ddiwylliant iaith Gymraeg, gan gynnwys darllediadau o ddigwyddiadau cenedlaethol - megis Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, yr Ŵyl Gerdd Dant, Cân i Gymru, a Sioe Frenhinol Cymru. Mae gan S4C ran unigryw i'w chwarae o ran hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae ymchwil blynyddol gan S4C (a gyflwynir yn yr Adroddiad Blynyddol) ar gyfer 2014 yn dangos fod 88% o banel cynulleidfa S4C yn credu mai S4C yw'r sianel sy'n cynnig y ddarpariaeth orau o ddigwyddiadau yng Nghymru, 81% yn credu bod S4C yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o ddigwyddiadau diwylliannol Cymru, 83% o'r farn fod S4C yn gwneud i'r Gymraeg 'ddod yn fyw' ac 81% o'r farn fod S4C yn gwneud y Gymraeg yn fwy perthnasol a modern. Mae partneriaid S4C, gan gynnwys trefnwyr gwyliau cenedlaethol a phartneriaid ym maes addysg gydol oes hefyd yn tystio i bwysigrwydd darpariaeth S4C ar gyfer eu digwyddiadau ac ar gyfer hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg.

Wrth ystyried darpariaeth y BBC yn y cenhedloedd, dylid cofio cyfraniad pwysig y BBC nid yn unig i'w gwasanaethau ei hun, ond hefyd i wasanaeth S4C yng Nghymru. Mae'r 10 awr yr wythnos o raglenni a gynhyrchir ac a ddarperir gan BBC Cymru i S4C ers 1982 o dan ddarpariaeth statudol, a hefyd gytundeb partneriaeth strategol, yn elfen bwysig o wasanaeth darlledu cyhoeddus S4C ac yn cynnwys darpariaeth mewn genres darlledu gwasanaeth cyhoeddus pwysig megis Newyddion, Pobol y Cwm, elfennau o chwaraeon a darllediadau o'r Eisteddfod Genedlaethol.

**Trefniadau cyllido, llywodraethu ac atebolrwydd y BBC ar hyn o bryd ac yn y dyfodol mewn perthynas â Chymru**

Nid ydym yn cynnig barn parthed trefniadau llywodraethiant ac atebolrwydd ar gyfer y BBC sy'n ymwneud â gwasanaethau'r BBC ei hun. Fodd bynnag, mewn perthynas â gwasanaethau S4C, mae trefniadau atebolrwydd a llywodraethiant sy'n ymwneud â gwariant Ffi'r Drwydded o ddiddordeb a phwysigrwydd penodol i S4C ers i'r Cytundeb Gweithredu ddod i rym ym mis Ebrill 2013. Ers 2011, mae Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC wedi gweithio'n agos er mwyn datblygu fframwaith atebolrwydd ac ariannu a fyddai'n diogelu annibyniaeth S4C tra ar yr un pryd yn sicrhau atebolrwydd priodol i Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer y defnydd o arian ffi'r drwydded. Er gwaethaf amheuon cychwynnol a phryderon rhai rhanddeiliaid, mae S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC wedi gweithio'n ddiwyd i sicrhau fod y trefniadau'n gweithio. Rydym wedi profi y gall drefniadau ariannu penodol weithio ac y gallent ddarparu atebolrwydd priodol i gorff rheoleiddio'r BBC a gwarcheidwad ffi'r drwydded, tra ar yr un pryd sicrhau parhad annibyniaeth darlledwr gwasanaeth cyhoeddus.

Mewn perthynas â'r trafodaethau polisi cyhoeddus yn ymwneud â dyfodol atebolrwydd darlledu yng Nghymru, a ystyriwyd gan Gomisiwn Silk, mae'n bwysig nodi nad yw S4C, fel corff cyhoeddus a darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn gallu mynegi barn ar bolisi cyhoeddus. Mae S4C fodd bynnag yn ein tystiolaeth i Gomisiwn Silk wedi nodi nifer o faterion i wneuthurwyr polisi eu hystyried ac yn ogystal wedi datgan unwaith yn rhagor barodrwydd i drafod gyda chynrychiolwyr etholedig yn San Steffan a Bae Caerdydd mewn perthynas â materion yn ymwneud â darlledu ac atebolrwydd S4C.

Mae trefniadau llywodraethiant ac atebolrwydd presennol S4C wedi eu nodi mewn darpariaethau statudol ac yn y Cytundeb Gweithredu rhwng Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC.

Ar hyn o bryd mae S4C yn *atebol* i Senedd San Steffan drwy ddarpariaethau statudol, ac ers 2013 yn atebol i Ymddiriedolaeth y BBC (drwy ddarpariaethau’r Cytundeb Gweithredu) ar gyfer defnydd arian ffi'r drwydded. Mae’r BBC a Chynulliad Cenedlaethol Cymru wedi arwyddo memorandwm o gyd-ddealltwriaeth yn ddiweddar, a nodwn fod S4C hefyd yn barod i ffurfioli’r berthynas bresennol gyda'r Cynulliad a’i bwyllgorau.

Yng nghyd-destun *llywodraethiant*, comisiynodd S4C Syr Jon Shortridge i gynnal adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethiant S4C yn 2010 yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod i ddisodli'r drefn flaenorol o lywodraethiant a elwid Arwahanrwydd. Gwnaeth Syr Jon nifer sylweddol o argymhellion, a derbyniwyd y rhan helyw ohonynt gan yr Awdurdod ac maent bellach wedi eu gweithredu. Mae’r system o lywodraethiant corfforaethol a argymhellwyd gan Syr Jon wedi darparu trefniadau llywodraethiant effeithiol ar gyfer S4C.

Bydd S4C yn cyflwyno tystiolaeth i adolygiad Syr David Clementi o lywodraethiant y BBC a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gan ganolbwyntio ar berthynas unigryw S4C gydag Ymddiriedolaeth y BBC a'r Bwrdd Gweithredol ac yn benodol y modd y mae'r Cytundeb Gweithredu rhwng yr Awdurdod a'r Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i greu perthynas greadigol newydd a bywiog rhwng dau ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus annibynnol, gan warchod annibyniaeth S4C tra ar yr un pryd sicrhau atebolrwydd priodol i Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer defnydd o arian ffi'r drwydded.

Mae gan S4C berthynas unigryw gydag Ymddiriedolaeth y BBC a Bwrdd Gweithredol y BBC. Fodd bynnag, nid yw S4C yn cynnig barn am gyfansoddiad neu gyfrifoldebau corff olynol posibl i Ymddiriedolaeth y BBC i'r graddau y byddai unrhyw gyfrifoldebau yn ymwneud â llywodraethiant y BBC a’i wasanaethau.

Serch hyn mae bodolaeth corff sy'n annibynnol o Fwrdd Gweithredol y BBC ei hun fel dull o ddarparu cyllid o ffi'r drwydded i S4C, ac ar gyfer gweithredu trefniadau atebolrwydd trosgynnol am ddefnydd arian o'r fath, wedi bod yn elfen bwysig ar gyfer gwarchod annibyniaeth S4C. Er enghraifft, mae'r cytundeb Presennol gydag Ymddiriedolaeth y BBC yn cynnwys darpariaethau ‘in extremis’ sy’n caniatáu i Ymddiriedolaeth y BBC ddal yn ôl cyfran o gyllid S4C os yw'n credu nad yw S4C yn gweithredu yn unol â darpariaethau'r cytundeb. Nid ar chwarae bach y byddai’r Ymddiriedolaeth yn gweithredu’r darpariaethau hyn, a byddai gweithredu’r darpariaethau hyn yn arwydd y byddai pob opsiwn arall wedi methu â datrys unrhyw anghydfod sylfaenol.

Mewn sefyllfaoedd lle gallai gwrthdaro godi rhwng buddiannau’r BBC ei hun a rhai darlledwr gwasanaeth cyhoeddus annibynnol megis S4C, fe allai fod yn anodd iawn i Fwrdd Gweithredol y BBC i brofi ei fod yn arddel barn annibynnol a gwrthrychol pe gallai ymddangos fod ei benderfyniadau o bosibl yn creu budd i’r BBC neu ei wasanaethau ei hun. Mewn amgylchiadau lle credai Bwrdd Gweithredol y BBC y dylai arian gael ei ddal yn ôl o S4C, byddai risg y gellid cwestiynu cymhelliad unrhyw benderfyniad o'r fath, oherwydd yn ogystal â gweithredu fel dyfarnwr am ddarpariaethau'r cytundeb, byddai’r weithrediaeth hefyd yn elwau *de facto* o unrhyw gamau o'r fath oherwydd y byddai unrhyw arian nas darparwyd i S4C yn cael ei gadw o fewn cyllideb Bwrdd Gweithredol y BBC.

Gallai sefyllfa o'r fath yn y pen draw fod yn wrthgynhyrchiol i'r Weithrediaeth gyda chwestiynau’n codi am unrhyw benderfyniadau o'r fath, gan arwain o bosibl at leihau hygrededd ei benderfyniadau. Dyma un enghraifft lle mae’r drefn bresennol o sicrhau atebolrwydd i gorff hyd braich / rheoleiddiwr, megis Ymddiriedolaeth y BBC yn gweithio’n ymarferol er budd S4C a Gweithrediaeth y BBC.

**<u>Dyfodol S4C, gan gynnwys ei threfniadau cyllido, gweithredu a llywodraethu a’r gwasanaeth y mae’n ei ddarparu</u>**

Wythnos nesaf byddwn yn cyhoeddi *S4C: Edrych i'r Dyfodol* a fydd yn nodi opsiynau ar gyfer strategaeth S4C i’r dyfodol, ardrawiad S4C a heriau y bydd angen o bosibl i ni eu hwynebu yn y dyfodol. Nodir isod wybodaeth am faterion cyllido. Mae'r ateb i'ch cwestiwn blaenorol yn nodi gwybodaeth sy'n ymwneud â materion llywodraethiant ac atebolrwydd.

Mae cyllid S4C - o ran ffynonellau a maint wedi newid yn sylweddol ers 2010. Rydym yn deall y flaenoriaeth y mae Llywodraeth y DU wedi ei roi ar leihau’r diffyg yn y fantolen gyhoeddus ers 2010 a chredwn ein bod wedi ymdrin â’r setliad cyllido heriol mewn modd cadarnhaol, tra'n gwarchod cyn belled â phosibl y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu i’n cynulleidfa. Mae'r costau sydd wedi eu dileu o weithrediadau S4C a'r gostyngiadau sydd wedi eu cyflawni gan ein partneriaid yn y sector gynhyrchu annibynnol yn sylweddol, fel y nodir isod.

Mae'r setliad ariannu diwygiedig a gyflwynwyd yn adolygiad gwariant cynhwysfawr 2010 wedi gorfodi S4C i ddelio gyda gostyngiad termau real o c.36% yn ei incwm dros gyfnod y setliad ariannu presennol. Mewn

termau arian parod, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad cyfansawdd (heb gynnwys chwyddiant) o dros £65 miliwn hyd yn hyn. Yn ystod y cyfnod hwn rydym wedi ceisio torri'r got yn ôl y brethyn, tra ar yr un pryd ceisio sicrhau bod y ganran uchaf posibl o incwm S4C yn cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau ar gyfer ein cynulleidfa, gydag 80% o incwm S4C yn cael ei fuddsoddi mewn cynnwys gwreiddiol gan y sector cynhyrchu annibynnol. Mae sicrhau fod effaith economaidd gweithgareddau S4C hefyd yn creu'r budd fwyaf posibl i'r economi yng Nghymru (fel y nodir isod) hefyd wedi bod yn flaenoriaeth yn ystod y cyfnod.

Yn ogystal â delio gyda gostyngiad mewn termau arian parod o dros £65m ers 2010, Mae rhaglen o arbedion pellach o fewn gweithrediadau S4C wedi'i gyflwyno yn unol â'r Cytundeb Gweithredu rhwng Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC. Cynlluniwyd y rhaglen hon i sicrhau y buddsoddir y rhan fwyaf o incwm S4C yn ei gwasanaethau ar gyfer y gynulleidfa. Mae targedau effeithlonrwydd yn y Cytundeb Gweithredu yn ei gwneud yn ofynnol i S4C gyflawni arbedion effeithlonrwydd a gostyngiadau cwmpas o 15% ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2013 i 31 Mawrth 2015, o'u cymharu â chyllideb S4C yn 2012.

Rydym wedi llwyddo, yn gyffredinol i gynnal y gwasanaeth presennol cynhwysfawr o fewn y setliad ariannu. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau clir o'r pwysau sydd eisoes wedi effeithio ar y gwasanaeth a ddarparwn i'n gynulleidfa megis gorfod dirwyn i ben wasanaeth manylder uwch S4C, lleihau'r buddsoddiad mewn rhaglenni plant, diffyg drama wreiddiol am nifer sylweddol o fisoedd bob blwyddyn, a newidiadau i batrwm darlledu Pobol y Cwm (gan gynnwys rhoi'r gorau i bennod omnibws ddydd Sul, o ganlyniad i ostyngiad yng nghyfraniad ariannol S4C i'r BBC). Yn ogystal, mae pwysau sylweddol ar gostau pob genre cynnwys wedi arwain at ostyngiad o 35% yn y gost fesul awr o wasanaeth S4C ers 2009.

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud gan dîm gweithredol S4C i adolygu strwythur sefydliad S4C a'i gweithgareddau er mwyn ceisio lleihau costau mewnol S4C ac i fanteisio i'r eithaf ar y gallu i fuddsoddi'n uniongyrchol mewn cynnwys a chwmnïau cynhyrchu ledled Cymru er mwyn sicrhau'r gwasanaeth gorau posibl ar gyfer ein Cynulleidfa. Rydym wedi cydweithio'n agos gyda'r cynhyrchwyr hyn, gan ddarparu cytundebau tymor-hir i nifer o gwmnïau er mwyn sicrhau costau is a chynnydd o ran gwerth am arian ac ymrwymiad i hyfforddiant, er mwyn cynnal nifer oriau'r gwasanaeth, er bod rhywfaint o ostyngiad yn nifer yr oriau o raglennu mwyaf costus megis drama'n benodol.

Mae'r rhaglen effeithlonrwydd presennol eisoes wedi cyflawni arbedion effeithlonrwydd a gostyngiadau yng nghostau S4C, heb gynnwys y gyllideb cynnwys, o fwy na £12.5m mewn arbedion gros. Ar gyfartaledd, bob blwyddyn ers 2011 mae arbedion effeithlonrwydd ychwanegol o 12% wedi eu cyflawni, o'u cymharu gyda chyllideb 2011. Yn unol â'r Cytundeb Gweithredu, cedwir yr holl arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd gan S4C er mwyn eu hail-fuddsoddi mewn cynnwys gwreiddiol ar gyfer gwasanaethau S4C.

Ceir rhagor o wybodaeth am gynllun arbedion effeithlonrwydd a gwerth am arian rhaglenni S4C ar dudalennau 52 i 67 Adroddiad Blynyddol 2014-15.

O ystyried maint y gostyngiad ariannol ac arbedion effeithlonrwydd sydd wedi eu gweithredu, rhagwelir y byddai unrhyw arbedion pellach, gan gofio mai'r prif flaenoriaeth yw cynnal ansawdd y gwasanaeth, yn debygol o olygu gostyngiad yn yr ystod a'r math o wasanaeth a ddarperir gan S4C.

Fe allai dewisiadau o'r fath gynnwys lleihad cyffredinol mewn oriau darlledu, cynnydd yn y defnydd o ailddarllediadau ac archif (eisoes ar lefel uchel - 57% o'r oriau a ddarlledwyd), gostyngiad mewn rhaglenni gwreiddiol i blant (gan gynyddu nifer y pryniannau), gostyngiad mewn genres drud megis drama a rhaglenni dogfen, anallu i ail-gyflwyno gwasanaeth HD a gostyngiad yng ngallu S4C i ddarparu gwasanaethau ar ystod o lwyfannau ar-lein (megis y ddarpariaeth o gynnwys S4C ar lwyfannau, gan gynnwys BBC iPlayer a YouView) gan greu'r argraff fod S4C yn wasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus eilradd.

Byddai unrhyw fesurau o'r fath yn cael effaith gyfansawdd ar y gwasanaeth a ddarperir i'r gynulleidfa, a'i effaith diwylliannol, ieithyddol a chymdeithasol, a fyddai'n lleihau effaith economaidd ac ariannol S4C o fewn economi Cymru.

Er gwaethaf ein hymdrechion i flaenoriaethu buddsoddiad mewn cynnwys gwreiddiol, ac felly i geisio arbedion effeithlonrwydd yn y lle cyntaf o gostau S4C ei hun, mae maint y gostyngiad ariannol eisoes wedi golygu lleihad yng ngallu S4C i gynnig rhai genre o raglenni - megis drama wreiddiol o ansawdd uchel a chwaraeon. Er enghraifft yn 2013-14, cafwyd bwlch o saith mis rhwng cyfresi drama newydd yn y slot nos Sul draddodiadol. Mae'r gynulleidfa yn gosod drama wreiddiol o ansawdd uchel ar frig eu rhestr blaenoriaethau ar gyfer S4C yn aml. Mae absenoldeb cynnwys o'r fath yn amlwg ac yn cael ei adlewyrchu ym mherfformiad y sianel.

Mae ein gallu i gystadlu ar gyfer hawliau chwaraeon wedi lleihau o ganlyniad i gynnydd sylweddol yn y gystadleuaeth yn y farchnad hawliau, gyda darlledwyr eraill bellach yn gallu fforddio i brynu hawliau y byddai wedi llwyddo i'w prynu yn y gorffennol. Mae'r duedd hon yn debygol o gynyddu yn y dyfodol agos.

O ystyried y cynnydd sylweddol yn y defnydd o wasanaeth S4C tu allan i Gymru yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i strategaeth lwyfannau newydd S4C, sy'n cynnwys darparu cynnwys S4C ar yr iPlayer, Virgin Media tu allan i Gymru, YouView ar draws y DU yn ogystal â rhai setiau teledu clyfar a chonsolau gemau, mae'r diffyg darpariaeth gwasanaeth HD yn achos o bryder yn enwedig o ystyried fod galw am gynnwys S4C ar draws y DU.

Mae cynyddu'r ystod o lwyfannau lle y mae modd defnyddio cynnwys S4C yn flaenoriaeth strategol. Fodd bynnag, bydd parhau i ddatblygu'r strategaeth hon yn golygu cynyddu costau blynyddol.

Yn ogystal â rôl ieithyddol a diwylliannol bwysig S4C, rydym hefyd yn gosod pwysigrwydd ar sicrhau fod ein buddsoddiad ariannol yn y sector cynhyrchu annibynnol - busnesau bach a chanolig yng Nghymru, yn creu'r effaith economaidd fwyaf posibl. Yn 2014/15, comisiynodd S4C gynnwys o 50 cwmnïau cynhyrchu (a restrir yn yr adroddiad blynyddol) ledled Cymru, gan gynnwys Caernarfon, Llanelli, Abertawe a Chaerdydd.

Canfu ymchwil annibynnol (Arad) yn ymwneud ag effaith economaidd S4C fod pob £1 mae S4C yn ei fuddsoddi yn yr economi yng Nghymru a'r DU yn cynhyrchu gwerth cyfanswm o £2.09. Golyga hyn fod buddsoddiad S4C o £83m yn 2014/15 wedi creu effaith gyfunol o £117m ar economi Cymru a £170m ar draws y DU.

Mae sicrhau gweledigaeth hirdymor a sefydlogrwydd o ran ariannu yn hynod bwysig i S4C, yn ogystal â dyletswydd statudol yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau arian digonol ar gyfer S4C (fel y nodir yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2011).

Mae sefyllfa S4C yn unigryw o ran strwythurau ariannu - gyda nifer o brosesau sy'n berthnasol i'r drafodaeth ynghylch ariannu S4C yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys (i) adolygiad gwariant cyfredol Llywodraeth y DU, (ii) proses adnewyddu Siartr y BBC a setliad ffi'r drwydded a (iii) y ddyletswydd trosgynnol ar yr Ysgrifennydd Gwladol, a nodir yn adran 31 Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, i sicrhau arian digonol ar gyfer S4C a dod i gasgliad parthed trefniadau ar gyfer hynny.

Cyfeiria'r Papur Gwyrdd at yr egwyddor o Glustnodi Cyllid ('Protected Funding') o fewn setliad ffi'r drwydded yn y dyfodol fel dull ar gyfer diwallu amcanion polisi cyhoeddus penodol. Argymhellwyd gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon San Steffan yn ei adroddiad blaenorol y dylai'r cyfrifoldeb am (ran) ariannu S4C drosglwyddo o Ymddiriedolaeth y BBC i'r comisiwn darlledu gwasanaeth cyhoeddus arfaethedig.

Mae Clustnodi Cyllid wedi bod yn ddull addas o sicrhau amcanion polisi cyhoeddus penodol ar gyfer darparu gwasanaeth teledu Cymraeg, h.y. S4C.

Nid yw S4C yn cynnig barn parthed manylion mecanweithiau posibl (h.y. ffi'r drwydded, ardoll aelwydydd neu ddulliau eraill o dalu) ar gyfer casglu incwm ffi'r drwydded y BBC yn y dyfodol. Yr egwyddor allweddol ym marn S4C yw sicrhau fod gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gael i bawb, gan gynnwys gwasanaethau iaith frodorol megis S4C, a sicrhau'r cyllid sydd ei angen er mwyn parhau i allu darparu gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus cynhwysfawr ar draws gwledydd y DU, a'r mecanwaith fwyaf tebygol o sicrhau'r arian hyn.

Os derbynnir yr egwyddor parthed "read-across" i ariannu S4C a amlinellwyd yn llythyr Canghellor y Trysorlys i Gyfarwyddwr Cyffredinol y BBC (3 Gorffennaf), mae gwir berygl y byddai unrhyw ostyngiad pellach o incwm ffi'r drwydded yn effeithio'n sylweddol ar gyllid S4C a ddarperir o ffi'r drwydded.

Cafwyd trafodaethau manwl rhwng Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC er mwyn gweithredu'r cytundeb yn 2010 ar gyfer trosglwyddo'r rhan fwyaf o gyllid S4C o DCMS i ffi'r drwydded ac er mwyn sicrhau cytundeb gweithredu oedd yn diogelu annibyniaeth olygyddol a rheolaethol a gweithredol S4C, tra'n gosod mecanwaith cyfrifo er mwyn darparu atebolrwydd terfynol i Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer y defnydd o arian ffi'r drwydded. Fel dau ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus, ill dau yn darparu gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg, mae cysylltiad agos rhwng amcanion craidd y BBC ac S4C, ac felly gellid dangos yn glir bod gweithgareddau S4C yn gallu cyfrannu at bwrpasau cyhoeddus y BBC. Mae'n bosibl fod y berthynas rhwng S4C a'r BBC mewn gwirionedd, yn unigryw, ac nid yw felly'n creu cynsail ehangach ar gyfer defnydd ehangach o'r egwyddor o glustnodi cyllid.

Cred S4C y dylid penderfynu ar gyfanswm arian penodol ar gyfer S4C fel rhan o'r broses o benderfynu ar anghenion ariannu digonol S4C. Dylid pennu'r swm ariannol cyn penderfynu ar setliad ffi'r drwydded yn ystod proses adnewyddu'r Siartr a dylid ei negyddu a'i gytuno mewn modd tryloyw ac agored rhwng Llywodraeth y DU, corff llywodraethu'r BBC a'r corff perthnasol, yn yr achos hwn Awdurdod S4C.

**Sut y mae diddordebau Cymru yn cael eu cynrychioli yn ystod y broses adnewyddu**

Cred S4C ei fod yn bwysig sicrhau lle priodol ar gyfer S4C a buddiannau ehangach darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru fel rhan o'r broses o adnewyddu'r Siartr. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau dealltwriaeth o sefyllfa S4C yn hollbwysig, yn enwedig yng nghyd-destun adnewyddu'r Siartr a'r broses neu unrhyw adolygiad er mwyn dod i benderfyniad ar 'arian digonol' ar gyfer S4C.

Mae S4C wedi meithrin perthynas adeiladol â rhanddeiliaid dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys yr Ysgrifenyddion Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a Chymru a'u swyddogion, Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol, ac Ymddiriedolaeth y BBC a'r Bwrdd Gweithredol yn Llundain a Caerdydd. Bydd y cysylltiadau hyn yn allweddol wrth sicrhau proses neu adolygiad priodol o strategaeth a chyllid hirdymor S4C gan y bydd yn bwysig i randdeiliaid allu cyfrannu at y broses ar gyfer pennu arian digonol ar gyfer S4C a gallu ardystio i'r gwerth ychwanegol y mae S4C yn ei darparu i sefydliadau ledled Cymru drwy weithio mewn partneriaeth.

Mae'r "read-across" i gyllid S4C a amlinellir gan Ganghellor y Trysorlys yn ei lythyr i Gyfarwyddwr Cyffredinol y BBC (3 Gorffennaf) yn golygu ei bod yn bwysig sicrhau dealltwriaeth a chytundeb clir parthed yr egwyddorion sylfaenol a sut byddai trefniant o'r fath yn cael ei weithredu fel rhan o broses neu adolygiad o anghenion ariannu S4C. Rydym hefyd yn credu y dylid rhoi ystyriaeth i'r gostyngiad cyllid sylweddol y mae S4C eisoes wedi ei weithredu wrth ystyried ariannu teg a digonol ar gyfer y cyfnod sydd i ddod, o gofio y bydd gallu S4C i ddelio â gostyngiadau pellach heb effeithio ar y math o wasanaeth y gellir ei ddarparu ar gyfer y gynulleidfa yn llai erbyn hyn.

Credwn fel rhan o'r broses o sicrhau fod holl anghenion a disgwyliadau Cymru yn cael eu hystyried yn ystod y broses o adolygu'r Siartr ei bod yn bwysig sicrhau proses cymesur a thryloyw neu adolygiad er mwyn cynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i ddod i gasgliad parthed gofynion ariannu digonol' S4C ar gyfer y cyfnod ariannu nesaf yn unol â'i ddyletswydd statudol. Mae amseriad y gwahanol benderfyniadau sy'n
effaith ar gyllid S4C yn creu ansicrwydd i S4C o ran ariannu yn y dyfodol, a dylid cymryd ystyriaeth o'r cymhlethdodau hyn fel rhan o unrhyw adolygiad o ariannu digonol ar gyfer S4C a'i allu i gomisiynu cynnwys yn y tymor hir a darparu sefydlogrwydd i'r sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru.

Rydym yn edrych ymlaen at drafod y materion a nodir yn y llythyr hwn a'r materion yn ymwneud â phroses adnewyddu Siartr y BBC a dyfodol S4C gyda chi a'ch Pwyllgor yn fuan.

Yn gywir





Huw Jones
Cadeirydd, Awdurdod S4C

Ian Jones
Prif Weithredwr, S4C